**CABINET - DYDD MAWRTH, 14 MAWRTH 2023**

COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD YN HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB / REMOTELY VIA MICROSOFT TEAMS - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB DYDD MAWRTH, 14 MAWRTH 2023, AM 14:30

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JC Spanswick | N Farr | W R Goode | J Gebbie |
| HM Williams | JPD Blundell | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |
| Julie Ellams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |

147. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Nid oedd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb

148. CADARNHAU'R COFNODION

PENDERFYNWYD:
Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 17/01/2023 a 07/02/2023 fel cofnod gwir a chywir.

149. AIL-DDATBLYGU COSY CORNER

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i addasu contract gwaith adeiladu *Cosy Corner* yn unol â rheol 3.3.6 o Reolau Gweithdrefn Contract y Cyngor.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau at ohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth Mr Mike Clarke, cyn Ymgynghorydd ac aelod o'r elusen Credu a ddiddymwyd, a oedd yn egluro nad oedd gan Credu brydles ar gyfer y safle, ond bod ganddyn nhw gytundeb i brydlesu gydag amodau amrywiol ynghlwm wrthyn nhw. . Daeth y cytundeb hwn i ben gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr pan aeth Credu i ddwylo'r gweinyddwyr ac adlewyrchwyd hyn yn gywir yn yr adroddiad ym mharagraff 3.1. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau mai'r cytundeb i brydlesu oedd y prif naratif o fewn yr adroddiad. Fodd bynnag, roedd cymal hepgor ym mharagraff 4.2 a oedd yn datgan " lease relinquishment" a dylai ddarllen "agreement to lease relinquishment". Cymerodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr feddiant yn ôl o safle *Cosy Corner* ar 5 Tachwedd 2020 pan gawsant wybod bod Credu wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr ac mae hyn wedi'i nodi ym mharagraff 3.1 yr adroddiad. Roedd adroddiad y Cabinet yn ymdrin â digwyddiadau ar ôl i Credu fynd i ddwylo'r gweinyddwyr, o 5 Tachwedd ymlaen pan oedd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gyfrifoldeb.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau y sefyllfa bresennol a bod hyn yn hollbwysig oherwydd yr angen i sicrhau eu bod wedi cwblhau'r adeilad yn ymarferol erbyn diwedd Mai 2023 gan eu bod wedi sicrhau £1 miliwn o arian grant WEFO yn erbyn cwblhau'r gwaith. Amlinellodd y gwaith a oedd wedi'i gwblhau, yr addasiad i'r contract presennol, oedi oherwydd yr amser a dreuliwyd yn profi ac egluro union natur yr halogiad ac oedi llawer hirach na'r disgwyl wrth dderbyn cymeradwyaeth gan Dŵr Cymru a newidiadau dylunio cysylltiedig gan adael Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn atebol am gostau contractwr am 12 wythnos ychwanegol. Yn ogystal, roedd y strategaeth adfer er mwyn trin â'r halogi yn nodi bod angen tua 2000 tunnell o bridd ar gyfer y safle i sicrhau'r lefel briodol ac ar gyfer adnewyddu deunyddiau ar y safle a ystyriwyd yn anaddas o ganlyniad i halogi posib gan asbestos. Fe wnaethon nhw addasu'r contract gwaith adeiladu er mwyn sicrhau bod yr adeilad yn cael ei gwblhau a'i flaenoriaethu i alluogi darpar denantiaid i gael mynediad a threfnu'r lle yn gyflymach. Byddai hyn hefyd yn ymateb i ofynion y rhai sy'n cyllido'r gwaith gan sicrhau y byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau erbyn 31 Mai.

Cytunodd yr Aelod Cabinet dros Adfywio ei bod yn bwysig gwneud y gwaith mewn pryd a gofynnodd o ble y daeth y pridd halogedig. Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau fod yr arolwg cyntaf wedi archwilio'r safle a chanfod asbestos a bod yr asbestos hwnnw wedi'i gymryd i ffwrdd. Yna cafodd y cabanau ym mhen deheuol y safle eu symud ac fe ddaethon nhw o hyd i fwy o asbestos a gafodd ei waredu hefyd. Oherwydd swm yr asbestos a ganfuwyd a'r ffaith ei fod yn gorchuddio'r rhan fwyaf o'r safle, bu'n rhaid iddyn nhw liniaru'r broblem trwy gael gwared ar 2000 tunnell o bridd a dod â phridd ffres i'r safle i sicrhau bod y cyfan o'r halogion oedd yn bresennol ar y safle wedi'u gwaredu.

Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd a oedd y contractwyr a oedd ar y safle cyn mis Hydref 2020 wedi cynnal arolygon ac wedi methu â gwneud unrhyw waith oedd angen ei wneud. Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau ei bod yn credu bod arolygon wedi'u cynnal a oedd yn nodi 2 ardal lle'r oedd halogiad posibl. Pan ddaeth contractwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i'r safle, cawsant gyfarwyddyd i wneud arolwg mwy manwl a dod o hyd i fwy o dir wedi'i halogi. Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd pryd y gosodwyd caban y Cadetiaid Môr ar y safle. Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau fod y gwaith arolwg a wnaed gan Credu yn ôl yn 2016 a rhwng 2016 a 2019, roedd y caban wedi'i leoli ar y safle hwnnw cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau gan Credu ar y safle.

Dywedodd yr Aelod Cabinet Cenedlaethau'r Dyfodol ei fod yn ddiolchgar bod yr arolygon wedi'u cynnal ac y gallan nhw fod yn sicr bod y safle'n ddiogel. Gofynnodd am esboniad o'r gyllideb yn hytrach na bod dros y gyllideb ac o fewn y gyllideb a glustnodwyd. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau fod yna ddyraniad cyfalaf o fewn y Rhaglen Gyfalaf sef tua £3 miliwn ar gyfer *Cosy Corner*. Roedd y cyllid ar gyfer y contract yn £2.8 miliwn felly roedd digon o arian o hyd i allu fforddio'r prosiect. Roedd y gyllideb ariannol gyfredol yn cwmpasu'r hyn y credir y gallai'r prosiect ei gostio ynghyd â chynlluniau wrth gefn a chostau ar gyfer dichonoldeb a chyngor arbenigol.

Cefnogodd yr Aelod Cabinet Adnoddau, fel Hyrwyddwr Iechyd a Diogelwch, yr adroddiad a oedd yn brosiect cyffrous iawn i dref Porthcawl ac roedd yn bwysig bod gan y trigolion yr hyder bod y problemau wedi cael eu trin mewn dull priodol.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod hwn yn brosiect blaenllaw mewn safle amlwg. Roedd yn falch o glywed bod cryn ddiddordeb wedi bod yn y 5 uned manwerthu gan greu swyddi newydd. Gofynnodd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol gadarnhau bod y gwaith adeiladu ar y trywydd iawn ac y byddai'r cyfan yn barod i'w hagor o fewn yr amserlen. Atebodd eu bod ar y trywydd iawn i gwblhau'r adeilad a gosod yr unedau erbyn 31 Mai.

Diolchodd yr Arweinydd yn bersonol i'r Arweinydd Tîm Rheoli Cyrchfan a Gweithrediadau Arfordirol, Sean Warrington am ei waith caled yn cyflawni hyn yn ogystal â datblygiadau cyffrous eraill. Fe ddymunodd yn dda iddo hefyd ar ei swydd newydd.

PENDERFYNWYD: Awdurdododd y Cabinet i addasu'r contract ar gyfer gwaith adeiladu *Cosy Corner* a bod hyn i gynnwys y gwaith a'r gwasanaethau ychwanegol gan y contractwr a oedd wedi bod yn angenrheidiol, ac yn parhau i fod yn angenrheidiol, ers y caffaeliad cychwynnol i werth ariannol sydd dim mwy na £265,790 a chynyddu gwerth y contract i werth o £2,804,394 yn unol â rheolau 3.3.6 o Reolau Gweithdrefn Contract y Cyngor.

150. ISADEILEDD PRIFFYRDD A REOLIR YN DDA, COD YMARFER 2016 - GRŴP CYSWLLT FFYRDD Y DU A CHYMDEITHAS SYRFEWYR SIROL CYMRU (CSSW) YMAGWEDD AT REOLI PRIFFYRDD SY'N SEILIEDIG AR RISG.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau adroddiad i gael cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer sefydlu trefn ddiogelwch ddiwygiedig newydd yn seiliedig ar argymhellion diweddariad Grŵp Cyswllt Ffyrdd y DU o'r Cod Ymarfer, yn ogystal ag adolygiad a safoni ar gyfer Cymru gyfan gan Gymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru (CSSW) i gyd-fynd a threfn ar gyfer Cymru gyfan ar Gynnal a Chadw Priffyrdd.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau yr ased o briffyrdd yr oedd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, fel yr Awdurdod Priffyrdd, y ddyletswydd i gynnal yr ased hwnnw. Cynhaliwyd archwiliadau rheolaidd i sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, bod yr ased priffyrdd yn ddiogel i'w ddefnyddio. Er mwyn hwyluso ymateb sy'n gyson yn genedlaethol, adolygodd CSSW y Cod Ymarfer a chyhoeddodd fethodoleg yn seiliedig ar y risg i awdurdodau ei dilyn ac a oedd yn cyd-fynd â'r arferion a nodir yn y cod. Fe asesodd y swyddogion fethodoleg CSSW sy'n seiliedig ar risg a'r dulliau asesu cysylltiedig. Fe gynhaliwyd adolygiad yn seiliedig ar risg o hierarchaeth asedau priffyrdd presennol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ogystal â threfniadau archwilio a thrwsio.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau y gwahaniaethau rhwng yr hierarchaeth bresennol, y trefniadau archwilio a thrwsio a'r dull seiliedig ar risg, gan nodi lle y gellid gweithredu newidiadau i gyd-fynd â methodoleg CSSW. Esboniodd y lefelau ymyrraeth diffygiol fel y dangosir yn atodiad A i'r adroddiad ac eglurodd, er y byddai gan y cod diwygiedig oblygiadau ar gyfer arolygiadau ychwanegol, yr ystyrid y byddai'r strwythur staffio presennol yn gallu rheoli'r cynnydd mewn amleddau ac ni ragwelwyd y byddai'r amlder diwygiedig a'r meini prawf ymyrryd yn cynyddu'r galw am y lefelau o waith atgyweirio sydd ei angen ar lwybrau troed a lonydd cerbydau dros yr adnoddau presennol, fodd bynnag byddai hyn yn cael ei fonitro.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau at y 799 km o ffyrdd yn y Fwrdeistref a chroesawodd y trefniant i safoni'r drefn archwilio ledled Cymru. Credai fod anghysondeb gyda'r categori CH5 newydd lle'r oedd archwiliadau'n adweithiol o gymharu â llwybrau troed gwledig nad oedd llawer o ddefnydd ohonyn nhw a oedd yn cael eu harolygu'n flynyddol. Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau fod hwn yn bwynt dilys ac y bydden nhw'n archwilio'r ddau yn flynyddol.

Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd pa gamau fyddai'n cael eu cymryd pe na bai gwaith a wneir gan gontractwyr o safon dderbyniol. Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau y byddai archwiliad yn cael ei gynnal ar ôl cwblhau'r gwaith i gymeradwyo'r gwaith. Bu achlysuron pan nad oedd y gwaith i'r safon ofynnol ac fe ofynnir i'r contractwr ail-wneud y gwaith. Roedd yna hefyd gyfnod penodol ar gyfer bod yn atebol am unrhyw ddiffygion lle byddai unrhyw ddiffygion yn dod i'r amlwg o fewn y 3 mis cyntaf ac y gellid

gofyn i'r contractwr atgyweirio’r broblem. Byddai'r gwaith hwn yn cael ei wneud heb unrhyw gost ychwanegol i'r awdurdod.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Addysg sut oedd y llif dyddiol cyfartalog o lif traffig yn cael ei gyfrifo. Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau eu bod yn defnyddio gwifren ar draws y ffordd wedi'i gysylltu â bocs wedi'i gadwyno i olau stryd.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyodd y Cabinet weithredu'r amlder newydd ar gyfer archwilio diogelwch a'r meini prawf ymyrraeth ar gyfer unrhyw cywiro diffygion.

151. GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS - YMGYNGHORIAD RHEOLI CŴN

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ymgynghori â’r Heddlu, y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a chyrff perthnasol eraill mewn perthynas â chreu Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPO) yn ymwneud â Rheoli Cŵn yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr ac ar gyfer y Cabinet. Nodi y byddai canlyniad yr ymgynghoriad yn cael ei adrodd i'r Cabinet maes o law.

Darparodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau wybodaeth gefndirol ar gyfer y cynnig ac eglurodd fod y PSPO blaenorol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ymwneud â rheoli alcohol, cyfyngu ar fynediad i fannau cyhoeddus a rheoli cŵn wedi dod i ben ar 18 Mehefin 2022. Cyn y gallai'r Cyngor weithredu, ymestyn neu amrywio’r PSPO roedd gweithdrefn sy’n cael ei nodi gan statud bod yn rhaid i Awdurdod Lleol gynnal yr ymgynghoriad angenrheidiol, y cyhoeddusrwydd angenrheidiol a threfnu’r hysbysiad angenrheidiol. Amlinellwyd manylion yr ymgynghorai angenrheidiol a’r manylion perthnasol am yr arolwg ar-lein yn yr adroddiad. Byddai’r ymgynghoriad statudol yn cychwyn yn gynnar ym mis Ebrill 2023 ac yn parhau am 12 wythnos.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau a ellid adrodd yn ôl ar ganlyniad yr ymgynghoriad i'r Cabinet cyn gynted â phosibl fel y gallai ddod i rym o ddiwedd yr haf. Gofynnodd beth oedd yr hysbysiad cosb sydd wedi’i benodi a gofynnodd i'r swm gael ei wneud yn glir yn yr ymgynghoriad. Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau fod cŵn yn cael eu gwahardd ar rai traethau yn ystod misoedd yr haf ac mai'r hysbysiad cosb benodedig y gellid ei roi byddai £100.

Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd a allai trigolion anfon ffilm fideo i swyddogion er mwyn cyflwyno hysbysiad cosb benodedig. Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau fod yn rhaid iddi geisio cyngor cyfreithiol ar hyn. Bu digwyddiadau lle'r oedd tystiolaeth wedi'i hanfon ac roedd yn rhaid iddyn nhw ddiffinio'r unigolion dan sylw yn glir i'w galluogi i weithredu ac roedd hefyd yn dibynnu ar ba mor glir oedd y dystiolaeth fideo.

Gofynnodd yr Arweinydd am y diffiniad o fannau cyhoeddus ac yn arbennig statws parciau a meysydd chwarae a drosglwyddwyd drwy'r broses CAT a'r rhai a reolir gan yr awdurdod ac a fyddai hyn yn berthnasol i warchodfeydd natur a thir comin. Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau y byddai hyn yn berthnasol i unrhyw ofod sy'n hygyrch i'r cyhoedd lle gallai rhywun fynd gyda'i anifail ac felly byddai'n berthnasol i'r mannau hyn.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Adfywio a fyddai hyn yn berthnasol ar gyfer tir a oedd wedi bod yn destun trosglwyddiad CAT ac a oedd dan glo gyda'r nos. Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau y byddai'n berthnasol yn ystod y dydd pan fyddai ar agor.

PENDERFYNWYD: Rhoddodd y Cabinet gymeradwyaeth i ddechrau ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnig i greu Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus fel yr amlinellwyd ym mharagraff 4.3 o'r adroddiad hwn a nododd y Cabinet y byddai canlyniad yr ymgynghoriad yn cael ei adrodd i'r Cabinet maes o law.

152. GWELLIANNAU I'R CWRT TENNIS A NEWID DEFNYDD CRONFA TROSGLWYDDO ASEDAU CYMUNEDOL

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ymestyn cwmpas y Gronfa Trosglwyddo Asedau Cymunedol (CAT) i gynnwys datblygu ac adnewyddu asedau / cyfleusterau a gynhelir ar hyn o bryd neu'n flaenorol gan yr Adran Parciau na allai fod yn agored iddyn nhw'n hawdd a CAT oherwydd materion fel teitl tir, lle sicrhawyd o leiaf 25% o arian cyfatebol allanol. Gofynnwyd hefyd am gymeradwyaeth i ddyrannu £50,000 o'r Gronfa CAT i alluogi adnewyddu tri chwrt tennis ym Mharc Lles Maesteg mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Tennis Lawnt (LTA) am gyfanswm cost o £201,282. Dyrannu hyd at £151,065.09 (cost gyfredol £137,331.90 + 10% wrth gefn) o'r Gronfa CAT i alluogi datblygu dau gwrt tennis newydd ym Mharc Griffin, mewn partneriaeth â'r LTA gyda chyfraniad arian cyfatebol o £53,476.00 yn cael ei sicrhau a dyrannu £3,900.00 o'r Gronfa CAT i alluogi dau gwrt tennis yng Nghaeau Chwarae Heol-y-Cyw i gael eu hadnewyddu mewn partneriaeth â'r LTA ar gyfanswm cost o £59,868.06.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau y byddai Rhaglen Adnewyddu Parciau LTA yn adnewyddu cyrtiau parciau ledled y DU
ar ôl cael £21.9 miliwn o gyllid yn uniongyrchol gan Adran Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) Llywodraeth y DU ac £8.4 miliwn ychwanegol gan Sefydliad Tennis LTA i gyflwyno'r rhaglen erbyn mis Mawrth 2024. Asesodd yr LTA gyfleusterau tennis sy'n dod o dan y rhaglen Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP) a phenderfynwyd bod 4 safle hyfyw y dylid eu hail wynebu yn seiliedig ar eu harolygon cyflwr eu hunain ac asesiad o'r galw. Amlinellodd sut y byddai arian cyfatebol yn cefnogi Buddsoddiad Rhaglen Adnewyddu Parc yr LTA ac y byddai 3 o'r 4 cynllun adnewyddu yn cael eu gwneud ar ddiwedd mis Mawrth 2023 ac y byddai'r pedwerydd ym Mharc Griffin yn cael ei ohirio tan fis Medi 2023.
Ychwanegodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau fod hwn yn fuddsoddiad o dros hanner miliwn o bunnoedd mewn cyfleusterau tennis ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Roedd yn siomedig bod Aelod o'r Fwrdeistref Sirol o Faesteg wedi beirniadu'r buddsoddiad ym Mharc Lles Maesteg. Roedd cynllun Parc Griffin yn ddrytach oherwydd ei fod ar gyfer cyrtiau newydd ac nid ar gyfer adnewyddu. Fel canllaw, mae tocyn teulu ar hyn o bryd yn costio £39 y flwyddyn a byddai defnydd o'r cwrt a hyfforddiant ar gael am ddim. Roedd hwn yn fuddsoddiad gwych a byddai rhai o'r cyrtiau tennis yn eu lle cyn bod Wimbledon wedi dechrau.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adfywio fod hwn yn gyfle cyffrous, ac roedd yn dda gweld cymaint o arian yn cael ei fuddsoddi ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau y byddai cyllid ar gyfer Parc Griffin yn cael ei ddefnyddio i adnewyddu'r cyrtiau mewn lleoliad gwahanol ac y byddent yn gyrtiau pob tywydd newydd sbon.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet Cenedlaethau'r Dyfodol fod hyn yn gadarnhaol iawn, yn enwedig ar gyfer y tair ardal i'r gogledd o'r M4. Roedd yn obeithiol y gellid annog pobl leol i gymryd rhan yn y gamp. Roedd yn galonogol gweld lefel yr ymrwymiad gan sefydliad chwaraeon mawr gydag 1% o'r gronfa gyfan yn cael ei wario yn y Fwrdeistref. Gofynnodd pa waith oedd yn cael ei wneud i sicrhau bod y datblygiadau hyn yn gweithio mewn partneriaeth â Halo a Chynghorau Cymuned. Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau ei bod yn hynod bwysig gweithio ochr yn ochr â'r ddarpariaeth hamdden bresennol i wella'r cynnig.

Diolchodd yr Arweinydd i'r swyddogion a nododd ei bod yn gamp ryfeddol i sicrhau'r lefel hon o fuddsoddiad.

PENDERFYNWYD: Cabinet

- Cymeradwyo ymestyn cwmpas y Gronfa CAT i gynnwys datblygu ac adnewyddu asedau / cyfleusterau a gynhelir ar hyn o bryd neu'n flaenorol gan yr Adran Parciau na allent yn hawdd fod yn rhan o CAT oherwydd materion perchnogaeth teitl tir, lle mae lleiafswm o 25% arian cyfatebol allanol wedi'i sicrhau;

- Cymeradwyo'r dyraniad o £50,000 o dan y Gronfa CAT i alluogi adnewyddu tri chwrt tennis ym Mharc Lles Maesteg mewn partneriaeth â'r LTA ar gyfanswm cost o £201,282, yn amodol ar y Cabinet yn cymeradwyo ymestyn cwmpas Cronfa CAT;

- Cymeradwyo dyraniad o hyd at uchafswm o £151,065.09 (cost gyfredol £137,331.90 + 10% wrth gefn) o dan y Gronfa CAT i alluogi datblygu dau gwrt tennis newydd ym Mharc Griffin gyda'r LTA yn darparu arian cyfatebol o £53,476.00 gan yr amcangyfrifir mai cyfanswm cost y prosiect ar hyn o bryd yw £190,807.90, a bod yn amodol ar ganlyniadau cysylltu â'r gymuned yn ogystal â chaniatâd cynllunio, a bod y Cabinet yn cymeradwyo ymestyn cwmpas Cronfa CAT;

- Cymeradwyo'r dyraniad o £3,900 o dan y Gronfa CAT i alluogi dau gwrt tennis yng Nghaeau Chwarae Heol-y-Cyw i gael eu hadnewyddu mewn partneriaeth â'r LTA ar gyfanswm cost o £59,868.06. Roedd hyn yn amodol a bod y Cabinet yn cymeradwyo ymestyn cwmpas Cronfa CAT.

153. CANLYNIAD TENDR POLISÏAU YSWIRIANT BLYNYDDOL

Cyflwynodd y Prif Swyddog, Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad yn hysbysu'r Cabinet o ganlyniad yr ymarfer ail-dendro ar gyfer holl bolisïau Yswiriant y Cyngor, ac eithrio'r polisïau yswiriant camymddwyn meddygol a pholisïau yswiriant Harbour a osodwyd gydag yswirwyr arbenigol ac nad oedd angen paratoi tendr newydd yn y tro hwn. Gofynnwyd hefyd am gymeradwyaeth gan y Cabinet i awdurdodi Marsh UK Limited, fel Brocer Yswiriant penodedig y Cyngor, i dderbyn yr yswiriant ar gyfer y polisïau, ar ran y Cyngor.

Eglurodd y Prif Swyddog, Cyllid, Perfformiad a Newid fod y Cabinet ym mis Hydref 2022 wedi cymeradwyo cychwyn proses dendro ar gyfer yr holl bolisïau yswiriant blynyddol a oedd fod i ddechrau ar 31 Mawrth eleni. Roedd y broses hon bellach wedi'i chwblhau. Roedd y tendrau a dderbyniwyd wedi'u gwerthuso yn unol â manylebau'r tendr. Roedd y manylebau yn gofyn i dendrwyr i ystyried dau opsiwn ar gyfer cytundeb tymor hir. Y cyntaf, am gyfnod o dair blynedd a'r ail am gyfnod o dair blynedd gyda'r opsiwn i ymestyn am ddwy flynedd arall. Byddai'r trefniadau newydd hyn yn arwain at arbediad blynyddol o £116,000. Pwysleisiwyd na fyddai'r lleihad yn y gost yn arwain at ostyngiad yn lefel yr yswiriant a fyddai gan y Cyngor yn y dyfodol.

Dywedodd yr Aelod Cabinet Adnoddau ei fod wedi'i synnu o'r ochr orau i ganfod bod premiwm is ar gyfer lefel tebyg o yswiriant a diolchodd i'r Swyddog Yswiriant a Risg am ei gwaith caled.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyodd y Cabinet dderbyn y dyfynbrisiau ym mharagraff 4.4 gyda Chytundeb Hirdymor tair blynedd, ac opsiwn i'w hymestyn am ddwy flynedd arall, a osodwyd trwy Marsh UK Limited fel Brocer Yswiriant penodedig y Cyngor.

154. TRETHI ANNOMESTIG: RHYDDHAD DEWISOL: CYNLLUN RHYDDHAD TRETHI MANWERTHU, HAMDDEN A LLETYGARWCH 2023-24

Cyflwynodd y Prif Swyddog, Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i fabwysiadu Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch Llywodraeth Cymru 2023-24 Eglurodd fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi bod estyniad dros dro i'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi ar gyfer 2023-2024. Byddai hynny yn cefnogi eiddo preswyl cymwys drwy gynnig gostyngiad o 75% ar eu biliau trethi annomestig ar gyfer eiddo sy’n dod o fewn y sector manwerthu, hamdden a lletygarwch. Byddai’r cynllun yn berthnasol i bob busnes cymwys, fodd bynnag, byddai’r rhyddhad yn cael ei gapio yn amodol ar gap ar y swm y gallai pob busnes ei hawlio ledled Cymru. Roedd manylion am yr eiddo oedd yn gymwys ar gyfer y cynllun hwn i'w gweld yn Atodiad A i'r adroddiad.

Eglurodd y Prif Swyddog, Cyllid, Perfformiad a Newid yr amcangyfrifwyd y byddai tua 940 o fusnesau yn gymwys o fewn y fwrdeistref. Busnesau a allai elwa o orfod talu dim ond 25% o’u trethi annomestig o dan y cynllun newydd hwn yn ystod y flwyddyn i ddod. Ni fyddai unrhyw fusnes yn derbyn y rhyddhad hwn yn awtomatig, felly fe fydd gwybodaeth yn cael ei ryddhau drwy’r wefan a’r llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a phe bai’r Cabinet yn cytuno i fabwysiadu’r cynllun, byddai’r ffurflenni newydd yn cael eu rhoi ar wefan y Cyngor fel y gallai busnesau wneud cais o 1 Ebrill. Ychwanegodd y byddai Rheolwr Canol y Dref hefyd yn dod â'r cynllun hwn i sylw busnesau ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Diolchodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau i Lywodraeth Cymru am gefnogi’r diwydiant hamdden a lletygarwch ac anogodd yr Aelodau i sôn am y cynllun wrth ymweld â thafarndai a bwytai lleol.

PENDERFYNWYD:

Mabwysiadodd y Cabinet Gynllun Rhyddhad Trethi Adwerthu, Hamdden a Lletygarwch Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 fel y nodir yn Atodiad A yr adroddiad.

155. CARTREF DROS DRO I’R RHAI SY’N DDIGARTREF

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i atal Rheolau Gweithdrefn Contractau (CPRs) y Cyngor er mwyn sicrhau llety dros dro ar gyfer achosion o ddigartrefedd er mwyn cwrdd â dyletswydd tai statudol y Cyngor.

Darparodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid wybodaeth gefndirol ar y mater gan gynnwys gwybodaeth am fis Hydref 2022 a ddaeth a chategori newydd o anghenion i’w blaenoriaethu i rym. O dan y categori hwn, byddai person digartref yn cael llety dros dro. Mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y galw am lety dros dro. Ym mis Mawrth 2020 roedd 83 o aelwydydd mewn llety dros dro, ond erbyn canol Chwefror 2023 roedd y niferoedd hynny wedi cynyddu i 253 o aelwydydd. Er mwyn bodloni'r gofyniad cynyddol hwn, roedd y Cyngor yn defnyddio ystod o wahanol leoliadau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad. Roedd y darparwyr yn tueddu i fod yn fusnesau bach neu'n endidau unigol, a oedd wedi arwain at greu sefyllfa lle roedd cynhaliaeth hirdymor y gwasanaeth hwn yn eithaf heriol. Er mwyn galluogi'r trefniadau presennol i barhau, cynigiwyd cytundeb lefel gwasanaeth pellach am 12 mis gyda darparwyr oedd yn cynnig llety ar hyn o bryd. Byddai Strategaeth Digartrefedd newydd, Prosbectws Tai a Chynllun Trosiannol Ailgartrefu Cyflym yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet yn fuan, a fyddai'n amlinellu cynigion i leihau lefel y llety dros dro a ddefnyddir ac yn edrych i ehangu ar y llety

presennol a'r prosiectau cymorth cysylltiedig â thai a hefyd i weithio. gyda landlordiaid preifat i ddarparu llety ychwanegol lle bo'n bosibl, a hefyd i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau statudol a'r trydydd sector eraill i sicrhau bod cymorth cysylltiedig â thai ar gyfer aelwydydd yn cael ei gynnal a'i ehangu pan fo anghenion yn nodi bwlch yn y ddarpariaeth.

Eglurodd yr Aelod Cabinet Cenedlaethau'r Dyfodol eu bod wedi trafod yr argyfwng tai yn helaeth a'i bod yn mynd yn fwy anodd dod o hyd i lety ac fe wnaeth gydnabod nad oedd y systemau sydd ar waith yn bodloni ei ddisgwyliadau ond eu bod o ganlyniad i amgylchiadau anodd iawn. Roedd yr adroddiad hwn yn blastr dros dro yn unig. Fodd bynnag, roedden nhw'n chwilio am ateb mwy hirdymor gan gynnwys fframwaith caffael i weithio'n fwy effeithiol gyda pherchnogion tai haf ac Airbnb's. Diolchodd i'r swyddogion am eu gwaith caled a sicrhaodd y Cabinet eu bod yn chwilio am atebion tymor hir a gwahanol ffyrdd o liniaru'r argyfwng hwn.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd ei bod yn fwy tawel ei meddwl ar ôl gwrando ar yr Aelod Cabinet. Roedd ganddi bryderon ynghylch gwerth cymdeithasol y gwariant yn enwedig mewn perthynas â landlordiaid preifat. Roedd yn rhaid iddyn nhw fonitro RSLs yn glos gan eu bod yno i gyflawni'r gwaith. Gofynnodd am sicrwydd ynghylch yr her sydd ar gael mewn perthynas â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Atebodd y Prif Swyddog, Cyllid, Perfformiad a Newid eu bod yn gweithio'n agos gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a landlordiaid preifat ar draws Pen-y-bont ar Ogwr a bod yr angen wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y 3 blynedd diwethaf.

Ychwanegodd yr Arweinydd mai'r cyd-destun oedd popeth a'u bod i gyd yn cefnogi ymdrechion Llywodraeth Cymru ond nad oedden nhw'n gallu creu llety ychwanegol dros nos. Roedd hi'n sobri rhywun i weld cymaint o bobl mewn llety dros dro. Diolchodd i'r tîm am eu hymrwymiad i sicrhau llety i bobl heb unman arall i fynd.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Cabinet:

- Atal y rhannau perthnasol o Reolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor mewn perthynas â'r gofyniad i dendro am gontract a'i ddirprwyo i'r Rheolwr Grŵp - Tai i ymrwymo i Gytundebau Lefel Gwasanaeth gyda darparwyr llety am gyfnod o 'hyd at' 12 mis, er mwyn parhau i ddarparu llety dros dro ychwanegol, yn ôl yr angen i gyflawni dyletswyddau statudol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

- Dirprwyo awdurdod i'r Rheolwr Grŵp - Tai i gymeradwyo telerau terfynol y Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar ran y Cyngor ac i drefnu gweithrediad y cytundebau ar ran y Cyngor.`

156. <u>DEILLIANNAU AROLWG ESTYN AR GYFER YSGOL GYNRADD AFON Y FELIN, YSGOL GYNRADD PIL, YSGOL GYNRADD CORNELI AC YSGOL GYNRADD BRYNMENYN</u>

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Chymorth i Deuluoedd adroddiad yn hysbysu'r Cabinet am ganlyniadau ymweliadau arolygu diweddar Estyn ag Ysgol Gynradd Afon y Felin, Ysgol Gynradd Pîl, Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Brynmenyn. Esboniodd fod Estyn wedi ymweld â 4 ysgol gynradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ystod tymor yr haf a'r hydref 2022 a nododd nad oedd angen unrhyw weithgaredd ddilynol ar y pedair ysgol. Dywedodd hefyd bod Ysgol Gynradd Connelly wedi cael ei gofyn i gynhyrchu astudiaeth achos o arfer dda effeithiol ar ei gwaith mewn perthynas â sut mae'r ysgol yn cefnogi dealltwriaeth disgyblion o ymwybyddiaeth ariannol ar gyfer ei gynnwys ar wefan Estyn.

Diolchodd yr Aelod Cabinet dros Addysg i athrawon, myfyrwyr, rhieni, gofalwyr a llywodraethwyr am eu gwaith caled a thynnodd sylw at rai o’r sylwadau yn adroddiadau Estyn.

Llongyfarchodd yr Arweinydd yr holl ysgolion a gymerodd ran a diolchodd am ymrwymiad yr athrawon, y staff a'r disgyblion a'r grŵp ymroddedig o staff sy'n cefnogi'r holl ysgolion hynny. Byddai'r astudiaeth achos o amgylch yr Undeb Credyd yn cael ei rhannu mewn datganiad i'r wasg.

PENDERFYNWYD: Nododd y Cabinet gynnwys yr adroddiad hwn.

157. Y GRANT TRAWSNEWID ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Chymorth i Deuluoedd adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i ymrwymo i gytundeb gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (RCTCBC), Cyngor Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Bro Morgannwg ynghylch y Grant Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol 2021-2022. Eglurodd mai pwrpas y Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol oedd cefnogi awdurdodau lleol i ddatblygu a hyrwyddo arferion gwaith arloesol, aml-asiantaeth a thraws-sector i gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac i reoli gweithrediad y Ddeddf ALNET.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod y cais am y Grant ADY yn llwyddiannus a dyfarnwyd cyllid o hyd at £943,845 i RCTBC fel awdurdod lleol arweiniol a fyddai’n cael ei ddyrannu i bob cyngor yn unol â’r Cynllun Gweithredu ADY. Y swm a oedd ar gael i awdurdodau lleol, ysgolion, darparwyr addysg bellach ac Iechyd oedd £818,845 gan fod elfen wrth gefn o £125 k ar gyfer cyflogi’r Arweinydd Trawsnewid ADY rhanbarthol a chostau cysylltiedig a chymorth gweinyddol a chyllid. Y dyraniad gwariant grant i awdurdodau lleol oedd £248,925 ac roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn disgwyl derbyn £41,779 o’r cyllid.

Eglurodd yr Aelod Cabinet Addysg, fel yn yr adroddiad, mai Grant Llywodraeth Cymru oedd hwn ac y bydden nhw’n derbyn tua 17% a oedd yn fras yn unol a’n cyfraniad i’r Consortiwm. Byddai’r cynllun yn helpu llawer o fyfyrwyr yn y Fwrdeistref Sirol ag anghenion dysgu ychwanegol.

Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd a oedd y contract am flwyddyn ac a oedd yn cyd-fynd a’n rhan o fewn y Consortiwm Gwasanaethau Canolog. Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod hynny'n gywir.

PENDERFYNWYD: Cabinet:

- cymeradwyo bod y Cyngor yn ymrwymo i gytundeb gyda RCTCBC, Cyngor Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Bro Morgannwg ynghylch Grant Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol 2021-2022; a
- rhoi awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd i drafod a chytuno ar delerau terfynol y cytundeb gyda'r Cynghorau eraill a dderbyn a threfnu gweithredu'r cytundeb hwnnw, yn amodol ar arfer awdurdod dirprwyedig o'r fath mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151 â Phrif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol.

158. CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH RHWNG GWASANAETH CARCHARDAI A PHRAWF EM (HMPPS) A CHYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC A GYNHELIR YNG NGHARCHAR EM PARC SEFYDLIAD TROSEDDWYR IFANC (YOI)

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Chymorth i Deuluoedd adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i gytundeb lefel gwasanaeth i gefnogi pobl ifanc sy’n cael eu cadw o fewn Sefydliad Pobl Ifanc yng Ngharchar EM Y Parc (HMPYOI) ac i gyflawni cyfrifoldebau statudol Deddfau Plant 1989 a 2004. Amlinellodd y Cyfarwyddwr y cefndir ac eglurodd mai'r cynnig oedd i ddarparu uwch ymarferydd gwaith cymdeithasol penodedig o Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid o Ben-y-bont ar Ogwr i weithio fel rhan o’r Gwasanaeth Carchar Ieuenctid yng Ngharchar EM y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr gyda phlant sy’n destun dedfrydau remand/dan glo yn yr HMPYOI. Byddai'r swyddog hwn yn gweithio gyda'r tîm diogelu ac ymarferwyr ar gyfer adsefydlu i gyflawni nifer o ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant a phobl ifanc a'r sefydliad lle cyflawnir eu dyletswyddau.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod y goblygiadau ariannol wedi'u hamlinellu yn y cytundeb lefel gwasanaeth ac y bydden nhw’n cael eu hadolygu'n flynyddol. Byddai'r holl gostau'n cael eu hadennill hefyd oddi wrth y Gwasanaeth Carcharu Ieuenctid. Ni fyddai unrhyw gost i'r Cyngor o'r trefniant hwn.

Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd pa lwyth achosion y byddai'r ymarferydd hwn yn gyfrifol amdano? Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod tua 60 o bobl ifanc yn y Parc ar hyn o bryd ac nad oedd y mwyafrif llethol ohonyn nhw’n blant o Ben-y-bont ar Ogwr ond bod ganddyn nhw gyfrifoldeb o hyd gan fod Carchar y Parc wedi’i leoli yn y fwrdeistref sirol. Ychwanegodd fod hon yn rôl bwysig iawn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o fewn Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr.

Eglurodd yr Aelod Cabinet Addysg mai nod hyn oedd sicrhau bod Carchar y Parc yn cydymffurfio â dyletswyddau diogelu a bod pobl ifanc yn gallu derbyn y gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw tra'n aros yng Ngharchar y Parc.

Gofynnodd yr Arweinydd am adroddiad yn ôl ar y ddarpariaeth a beth oedd effaith y cytundeb lefel gwasanaeth hwn.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Cabinet:

- rhoi awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd i drafod ac ymrwymo i gytundeb lefel gwasanaeth; a

- chymeradwyo unrhyw estyniad neu ddiwygiad i'r cytundeb lefel gwasanaeth ac ymrwymo i unrhyw weithredoedd a dogfennau pellach a oedd yn ategol i'r cytundeb lefel gwasanaeth.

- cytuno i dderbyn adroddiad yn ôl ar y ddarpariaeth ac effaith y cytundeb lefel gwasanaeth hwn.

159. <u>POLISI CYFLOGWR MAETHU CYFEILLGAR</u>

Cyflwynodd y Prif Swyddog Polisi Cyfreithiol, Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Chorfforaethol adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i Bolisi Cyflogwr Maethu Cyfeillgar newydd. Roedd Rhwydwaith Maethu Cymru wedi bod yn galw ar gyflogwyr i fod yn fwy cyfeillgar i faethu er mwyn mynd i’r afael â rhai o’r heriau cenedlaethol sy’n ymwneud â maethu. Nod y polisi hwn oedd cynnig cyfle i weithwyr y Cyngor weithio'n hyblyg lle bo hynny'n gydnaws â gofynion eu swydd, i gefnogi gweithwyr a oedd eisoes yn ofalwyr maeth cofrestredig ac i annog gweithwyr eraill i ystyried i ymgymryd a gyrfa ym maes maethu yn y dyfodol. Byddai cymeradwyo'r polisi hwn yn cefnogi cais y Cyngor

i gael ei gydnabod fel “Cyflogwr Maethu Cyfeillgar” ac, o'i gymeradwyo, fe fydden nhw’n cyflwyno'r cais hwnnw.

Cefnogodd y Dirprwy Arweinydd y polisi ac ychwanegodd nad oedd y rôl hanfodol bwysig yr oedd gofalwyr maeth yn ei chyflawni bob amser yn cael ei gwerthfawrogi ac y gallai gynnig sefydlogrwydd a magwraeth i rai o'r plant a phobl ifanc mwyaf agored i niwed gan roi gwell cyfleoedd bywyd iddyn nhw. Roedd angen iddyn nhw sicrhau bod swyddogion yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn un o'r rolau mwyaf heriol ond gwerth chweil y gallan nhw ei chyflawni.

Eglurodd yr Aelod Cabinet Cenedlaethau’r Dyfodol ei fod yn dymuno cael ei gysylltu â’r sylwadau hyn gan ei fod yn rhywun sydd wedi elwa’n bersonol o ofal maeth. Roedd y gwahaniaeth enfawr yr oedd yn ei wneud i fywydau unigolion yn bwysig ac fel cyflogwr roedd yn hanfodol bod mor gefnogol â phosibl.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod hwn yn gyfle i helpu i chwalu myth ynghylch maethu nad oedd modd gweithio a maethu. Nid oedd hynny’n wir ac roedd llawer o ofalwyr maeth yn cyfuno’r rôl honno’n effeithiol iawn. Byddai hyn hefyd yn caniatáu’r cyfle i weithio’n hyblyg lle bo hynny’n gydnaws â gofynion y rôl a bod hynny’n seiliedig ar drafodaeth rhwng gweithiwr a’i reolwr llinell.

PENDERFYNWYD: Cabinet:

- Cymeradwyo'r Polisi Cyflogwr Maethu Cyfeillgar

- Cefnogi'r Cyngor i ddod yn gyflogwr Maethu-Gyfeillgar Cydnabyddedig.

160. RHAGLENNI GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET, Y CYNGOR A THROSOLWG A CHRAFFU

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyfreithiol, Rheoleiddiol ac Adnoddau Dynol adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer eitemau i'w cynnwys ar Raglen Gwaith Blaengynllunio’r Cabinet ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Mawrth 2023 a 30 Mehefin 2023 ac i'r Cabinet nodi i’r Cyngor a Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu nodi eu Rhaglenni Blaengynllunio ar gyfer yr un cyfnod. Yn dilyn ystyriaeth gan y Cabinet, byddai'r rhaglenni'n cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

PENDERFYNWYD: Cabinet

- Cymeradwyo Rhaglen Blaengynllunio’r Cabinet ar gyfer y cyfnod 1 Mawrth 2023 i 30 Mehefin 2023 a gynhwysir yn Atodiad 1;

- Nodi Rhaglenni Blaengynllunio’r Cyngor a’r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar gyfer yr un cyfnod, fel y dangosir yn Atodiad 2 ac Atodiad 3 yr adroddiad.

161. EITEM BRYS

Dim

162. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD:

O dan Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod tra'n ystyried yr eitem fusnes a ganlyn. gan ei bod yn

cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

Yn dilyn cymhwyso prawf budd y cyhoedd, penderfynwyd, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati uchod, i ystyried yr eitem ganlynol yn breifat, gyda'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod, gan yr ystyriwyd ym mhob amgylchiad yn ymwneud â'r eitem, y roedd budd y cyhoedd o gadw'r eithriad yn drech na budd y cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth.

163. CYMERADWYO COFNODION EITHRIEDIG

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Cabinet 07/02/2023 fel cofnod gwir a chywir.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:30